



**CYDRADDOLDEB, tegwch, caredigrwydd a meithrin cymunedau i fod yn falch ohonynt –  
dyma ddymuniadau’r maer newydd ar gyfer y Rhyl.**

Mae’r Cynghorydd Win Mullen-James wedi cymryd y swydd am yr ail dro, yn dilyn ei gŵr, y Cynghorydd Alan James.

Yn cynrychioli ward Trellewelyn, roedd y Cynghorydd Mullen-James yn faer am y tro cyntaf yn 2011/2012. Dywedodd ei bod yn falch o gymryd y swydd yn ystod cyfnod mor bwysig i’r dref.

“Mae llawer yn digwydd ar lefel leol a chenedlaethol eleni a’r flwyddyn nesaf, ac rwy’n falch o gael fy ethol yn faer unwaith eto. Mae’r Rhyl yn mynd trwy gyfnod o newid mawr, yn enwedig ar lan y môr, gyda datblygiadau megis parc dŵr SC2.

“Ond un peth sydd bob amser yn bwysig i’r Rhyl yw ei hysbryd cymunedol a byddaf yn cefnogi ein cymunedau yn ystod fy mlwyddyn yn y swydd, gan sicrhau fod y Rhyl yn parhau i fod yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo. Hoffwn i eleni ymwneud â chydaddoldeb, tegwch, sicrwydd a charedigrwydd, helpu pobl leol ac annog ymwelwyr yn ôl i’n tref ar adeg o newid cyffrous,” meddai.



Mae'r Cynghorydd Mullen-James hefyd yn gefnogwr brwd o Rhyl Urban Green – Rhyl yn ei Blodau, gynt – ac yn gwirfoddoli mewn digwyddiadau megis Ras Bywyd a'r sioe awyr ym mis Awst. Ond digwyddiadau cenedlaethol sydd flaenaf yn ei meddwl ar gyfer y flwyddyn i ddod.

“Mae llawer o ddigwyddiadau pwysig yn digwydd yn genedlaethol eleni – mae'n 100 mlynedd ers pan gafodd merched yr hawl i bleidleisio, ac mae hefyd yn ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r ddau beth yn gerrig milltir allweddol yn ein hanes cenedlaethol, ac rwy'n falch o fod mewn sefyllfa i helpu'r Rhyl nodi'r dyddiadau pwysig hyn ar lefel leol,” ychwanegodd y Cynghorydd Mullen-James.

Yn ystod ei blwyddyn yn y swydd, bydd y Cynghorydd Mullen-James yn hyrwyddo dau achos lleol – Canolfan Merched Gogledd Cymru ar Stryd y Dŵr, y Rhyl, a Changen Ysbyty Glan Clwyd Sefydliad y Galon Prydain. Ei chydymaith fydd ei merch, Catherine Patterson.

Y dirprwy faer fydd y Cynghorydd Ellie Chard sy'n cynrychioli Ward Derwen.

Diwedd

